OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 163

# Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

## RHAN 14

Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd y gwasanaeth

### Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi digwyddiadau a chwynion

**56.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle i gofnodi digwyddiadau, cwynion a materion y mae rhaid gwneud hysbysiadau yn eu cylch yn unol â rheoliadau 41 a 63.